Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
University Health Board

Ein cyf/Our ref: CEO.027.0115
Gofynnwch am/Please ask for: Nicola Gillies, PA to Chief Executive
Rhif Ffôn /Telephone: [redacted]
Ffacs/Facsimile:
E-bost/E-mail: [redacted]
Dyddiad/Date: 30 January 2015

Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth
Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 3BB

Corporate Offices, Ystwyth Building
Hafan Derwen, St Davids Park, Job's Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 3BB

David Rees AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Mr Rees

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Ionawr 2015 yn gofyn am y sefyllfa bresennol o safbwynt gweithredu Canllawiau Prif Swyddog Nyrsio Cymru ar Lefelau Diogel Staff Nyrsio. Mewn ymateb i'ch cais, rwy'n falch o gynnwys data 2014 yn yr un fformat â data 2013, fel sydd yn eich llythyr. Seilir y wybodaeth hon ar 29 ward meddygol cyffredinol a llawfeddygol lle mae'r egwyddorion yn berthnasol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi ymrwymo i sicrhau bod gennym lefelau staff cywir i ddiwallu anghenion ein cleifion ac rydym wedi buddsoddi yn ein cyllidebau sylfaenol er mwyn cael hyn yn gywir. Rydym yn parhau i adolygu ac ail-weithredu'r egwyddorion er mwyn cyflawni hyn; yn ogystal, rydym yn defnyddio ein barn nyrsio broffesiynol a'n gwybodaeth am aciwtedd a dibynadwyedd ein cleifion er mwyn cryfhau hyn ymhellach. Mae'r gwaith allweddol sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn datblygu strategaethau a chynlluniau i gefnogi'r gwaith recriwtio i sicrhau bod gennym weithlu nyrsio i allu cyflawni hyn.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â ni ar bob cyfrif.

Yn gywir,

Steve Moore

**Steve Moore**
**Prif Weithredwr**

ATODIAD

| Bwrdd Iechyd | Nifer y cleifion i bob nyrs gofrestredig | | Cymhareb nyrsys cofrestredig i weithwyr cymorth nyrsio |
|---|---|---|---|
| | dydd | nos | |
| Abertawe Bro Morgannwg | | | |
| Aneurin Bevan | | | |
| Betsi Cadwaladr | | | |
| Caerdydd a'r Fro | | | |
| Cwm Taf | | | |
| Hywel Dda | Nid yw'n mynd y tu hwnt i 7, ond mae hyn yn cynnwys Uwch Brif Nyrs y Ward | 9 - 15 ond yn gweithio tuag at 1:11 | Mae pob ward yn cyrraedd lefel 60:40 ac mae rhai yn fwy yn ôl yr angen. |